OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2022 Rhif (Cy. )

# GALLUEDD MEDDYLIOL, CYMRU

# Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Monitro ac Adrodd) (Cymru) 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Diwygiwyd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (p. 9) ("Deddf 2005") gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (p. 18) ("Deddf 2019") i ddarparu ar gyfer proses newydd ar gyfer awdurdodi trefniadau er mwyn galluogi i ofal neu driniaeth gael ei roi neu ei rhoi i bersonau nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio i'r trefniadau, sy'n arwain at eu hamddifadu o'u rhyddid ("y trefniadau"). Yn benodol, mae Deddf 2019 yn mewnosod Atodlen newydd AA1 yn Neddf 2005, sy'n cynnwys y cynllun gweinyddol newydd ar gyfer awdurdodi'r trefniadau hynny ("Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid"). Bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn disodli'r cynllun diogeliadau wrth amddifadu o ryddid a nodir yn Atodlen A1 i Ddeddf 2005.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer monitro gweithrediad Atodlen AA1 ac adrodd arno o ran Cymru.

Mae rheoliad 2 yn darparu diffiniadau at ddibenion y Rheoliadau ac yn diffinio "corff monitro" fel naill ai Arolygiaeth Gofal Cymru ("AGC"), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ("AGIC") neu Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, y cyfeirir ati'n gyffredin fel "Estyn". AGC fydd y corff monitro fel arfer mewn achosion pan fo trefniadau a awdurdodir o dan Atodlen AA1 yn cael eu cyflawni mewn lleoliad gofal cymdeithasol. AGIC fydd y corff monitro fel arfer mewn achosion pan fo trefniadau a awdurdodir o dan Atodlen AA1 yn cael eu cyflawni mewn lleoliad gofal iechyd. Mewn achosion pan fo trefniadau a awdurdodir o dan Atodlen AA1 yn cynnwys darpariaeth addysg fel rhan o'r trefniadau hynny, Estyn fydd y corff monitro fel arfer.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod rhaid i gorff monitro fonitro’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ac adrodd arnynt o ran Cymru.

Mae rheoliad 4 yn darparu y caiff corff monitro lunio adroddiad ar y cyd â chorff monitro arall ar weithrediad y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.

Mae rheoliad 5 yn darparu y caiff corff monitro ofyn am gymorth gan gorff monitro arall mewn cysylltiad â’i ddyletswyddau i fonitro’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ac adrodd arnynt o dan reoliad 3.

Mae rheoliad 6 yn pennu pwerau’r corff monitro mewn cysylltiad â’i ddyletswyddau monitro ac adrodd o dan reoliad 3. Mae’r pwerau a bennir yn rheoliad 6 yn cynnwys pŵer i ymweld ag unrhyw fan lle y mae trefniant awdurdodedig yn cael ei gyflawni, cwrdd â’r person y gofelir amdano ac edrych ar gofnodion penodol sy’n ymwneud â gofal a thriniaeth y person y gofelir amdano. Wrth arfer y pwerau hyn mae gan y corff monitro ddyletswydd i roi sylw i unrhyw God Ymarfer a ddyroddir o dan adran 42 o Ddeddf 2005.

Mae rheoliad 7 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal cyfarfodydd gan y corff monitro.

Mae rheoliad 8 yn darparu bod rhaid i gorff cyfrifol Cymreig hysbysu corff monitro os yw’n dechrau’r broses ar gyfer awdurdodi trefniadau o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ac os yw’n awdurdodi, yn adnewyddu neu’n amrywio trefniant awdurdodedig a bod trefniant awdurdodedig wedi dod i ben. Rhaid i gorff cyfrifol hefyd ddarparu i gorff monitro unrhyw wybodaeth y mae’r corff monitro yn gofyn yn rhesymol amdani at ddiben cyflawni ei swyddogaethau.

Mae gwybodaeth bellach am weithrediad y Rheoliadau hyn ac am fonitro’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ac adrodd arnynt wedi ei nodi yn y Strategaeth Monitro ac Adrodd ar gyfer Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi o’r Strategaeth Monitro ac Adrodd ar gyfer Cymru a’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol oddi wrth: Yr Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2022 Rhif (Cy. )

# GALLUEDD MEDDYLIOL, CYMRU

## Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Monitro ac Adrodd) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 44(1) a (2) o Atodlen AA1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(**1**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Monitro ac Adrodd) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar *** 2022.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "AGC" ("*CIW*") yw Arolygiaeth Gofal Cymru(**2**);

ystyr "AGIC" ("*HIW*") yw Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru(**3**);

(**1**) 2005 p. 9. Mewnosodwyd Atodlen AA1 gan adran 1(4) o Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (p. 18). *Gweler* y diffiniad o "appropriate authority" ym mharagraff 44(3)(b) o'r Atodlen honno.

(**2**) Mae AGC yn is-adran weithredol ar wahân o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru.

(**3**) Mae AGIC yn is-adran weithredol ar wahân o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru.

ystyr “Atodlen AA1” (“*Schedule AA1*”) yw Atodlen AA1 i Ddeddf 2005;

mae i “awdurdodiad”, “cofnod awdurdodiad”, “corff cyfrifol”, “person y gofelir amdano” a “trefniadau” yr ystyr a roddir i “authorisation”, “authorisation record”, “responsible body”, “cared-for person” ac “arrangements” ym mharagraff 3 o Atodlen AA1;

ystyr “corff monitro” (“*monitoring body*”) yw—

(a) AGC,

(b) AGIC, neu

(c) Estyn;

ystyr “Deddf 2005” (“*the 2005 Act*”) yw Deddf Galluedd Meddyliol 2005;

ystyr “Estyn” (“*Estyn*”) yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;

ystyr “person perthnasol” (“*relevant person*”) yw person sy’n ymwneud â gofalu am berson y gofelir amdano neu berson sydd â buddiant yn lles person y gofelir amdano.

### Dyletswydd corff monitro i fonitro ac adrodd

**3.**—(1) Rhaid i gorff monitro fonitro gweithrediad Atodlen AA1 o ran Cymru.

(2) Rhaid i gorff monitro ddarparu adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ar weithrediad Atodlen AA1, i’r graddau y mae gan y corff monitro ddyletswydd i fonitro ei gweithrediad o dan baragraff (1), ar unrhyw adegau y gofynnir amdano gan Weinidogion Cymru o bryd i’w gilydd.

### Adroddiadau ar y cyd

**4.** Caiff Gweinidogion Cymru ofyn i gorff monitro lunio adroddiad ar y cyd ag un neu ragor o’r cyrff monitro eraill yn unol â’i ddyletswydd o dan reoliad 3(2).

### Cymorth gyda monitro ac adrodd

**5.**—(1) Caiff corff monitro ofyn am gymorth gan gorff monitro arall, gan gynnwys mewn perthynas â’r materion a bennir yn rheoliad 4, 7 neu 8, at ddibenion cyflawni ei ddyletswydd o dan reoliad 3 os yw’n meddwl y bydd cymorth o’r fath—

(a) yn cael effaith gadarnhaol ar y modd y mae’r corff monitro yn cyflawni ei ddyletswydd, neu

(b) yn helpu’r corff monitro i gyflawni ei ddyletswydd.

(2) Rhaid i gorff monitro gydymffurfio â chais a wneir gan gorff monitro arall o dan baragraff (1) oni bai—

(a) ei fod yn cael ei atal rhag helpu yn y modd y gofynnir amdano drwy unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall,

(b) ei fod yn meddwl y byddai cymorth o'r fath fel arall yn anghydnaws â'i ddyletswydd ei hun o dan reoliad 3, neu

(c) ei fod yn meddwl y byddai cymorth o'r fath yn cael effaith andwyol ar ei ddyletswydd ei hun o dan reoliad 3.

**Monitro ac adrodd: pwerau cyrff monitro**

**6.**—(1) Caiff corff monitro, at ddibenion cyflawni ei ddyletswyddau o dan reoliadau 3 a 4—

(a) yn ddarostyngedig i baragraff (2), ymweld ag unrhyw fan lle y mae trefniant awdurdodedig yn cael ei gyflawni;

(b) yn ddarostyngedig i baragraff (3), cwrdd â pherson y gofelir amdano sy'n ddarostyngedig i awdurdodiad;

(c) ei gwneud yn ofynnol cael mynediad at gofnodion sy'n ymwneud â gofal neu driniaeth person y gofelir amdano sy'n ddarostyngedig i awdurdodiad ac edrych ar y cofnodion hynny;

(d) cwrdd â pherson perthnasol.

(2) Pan fo trefniant awdurdodedig yn cael ei gyflawni mewn annedd breifat neu mewn rhan o fangre a ddefnyddir fel annedd breifat, rhaid i gorff monitro geisio caniatâd cyn ymweld.

(3) Ni chaiff corff monitro gwrdd â pherson y gofelir amdano sy'n ddarostyngedig i awdurdodiad ond—

(a) os oes gan y person hwnnw alluedd i gydsynio i gwrdd â'r corff monitro a'i fod yn cydsynio i wneud hynny;

(b) pan na fo gan y person hwnnw alluedd i gydsynio i gwrdd â'r corff monitro, os yw gofynion paragraff (4) wedi eu bodloni.

(4) Y gofynion sydd i'w bodloni at ddibenion paragraff (3)(b) yw—

(a) bod naill ai rhoddai atwrneiaeth arhosol a roddir gan y person y gofelir amdano, neu ddirprwy a benodir gan y llys ar gyfer y person y gofelir amdano, yn gwneud penderfyniad dilys bod cyfarfod o'r fath er lles pennaf y person y gofelir amdano, neu

(b) pan na fo rhoddai atwrneiaeth arhosol na dirprwy a benodir gan y llys, fod person sy'n ymwneud â gofalu am y person y gofelir amdano neu sydd â buddiant yn lles y person

y gofelir amdano yn penderfynu bod cyfarfod o'r fath er lles pennaf y person y gofelir amdano.

(5) At ddiben paragraff (4)(a), mae penderfyniad rhoddai atwrneiaeth arhosol neu ddirprwy a benodir gan y llys yn ddilys os caiff ei wneud—

(a) o fewn cwmpas awdurdod y rhoddai neu'r dirprwy, a

(b) yn unol â Rhan 1 o Ddeddf 2005.

(6) Rhaid i benderfyniad a wneir gan berson o dan baragraff (4)(b) gael ei wneud yn unol â Rhan 1 o Ddeddf 2005.

**Cynnal cyfarfodydd**

**7.**—(1) Caniateir i gyfarfod â pherson y gofelir amdano yn unol â rheoliad 6(1)(b)—

(a) cael ei gynnal yn y man lle y mae'r awdurdodiad yn cael ei gyflawni neu mewn unrhyw fan arall;

(b) bod yn gyfarfod wyneb yn wyneb neu, os yw'n briodol, yn gyfarfod a gynhelir gan ddefnyddio cyfleusterau sain neu fideogynadledda.

(2) Pan fo rheoliad 6(3)(a) yn gymwys a bo'r person y gofelir amdano yn gofyn i'r cyfarfod gael ei gynnal yn breifat, rhaid i'r corff monitro gynnal y cyfarfod hwnnw yn breifat â'r person y gofelir amdano.

**Hysbysu**

**8.**—(1) Rhaid i gorff cyfrifol hysbysu corff monitro yn rheolaidd am y canlynol—

(a) bod y corff cyfrifol yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Atodlen AA1 gyda golwg ar benderfynu pa un ai i awdurdodi trefniadau mewn cysylltiad â pherson a'r dyddiad y dechreuodd y broses honno;

(b) bod y corff cyfrifol, ar ôl cyflawni ei swyddogaethau o dan Atodlen AA1, wedi penderfynu peidio ag awdurdodi trefniadau mewn cysylltiad â'r person hwnnw a dyddiad y penderfyniad hwnnw;

(c) bod y corff cyfrifol wedi awdurdodi trefniadau o dan baragraff 18 neu 19 o Atodlen AA1 ac—

(i) y dyddiad y rhoddodd y corff cyfrifol yr awdurdodiad,

(ii) y dyddiad y mae'r awdurdodiad yn cael effaith ohono, a

(iii) manylion y trefniadau fel y'u cofnodwyd yn y cofnod awdurdodiad;

(d) bod y corff cyfrifol wedi adnewyddu awdurdodiad o dan baragraff 32 o Atodlen AA1 ac—

(i) y dyddiad yr adnewyddodd yr awdurdodiad, a

(ii) y cyfnod adnewyddu;

(e) bod y corff cyfrifol wedi amrywio awdurdodiad o dan baragraff 37 o Atodlen AA1 ac—

(i) y dyddiad yr amrywiodd yr awdurdodiad hwnnw, a

(ii) manylion yr amrywiad i'r trefniant;

(f) bod awdurdodiad wedi peidio â chael effaith o dan baragraff 29 o Atodlen AA1 a'r dyddiad y peidiodd â chael effaith.

(2) Rhaid i gorff cyfrifol ddarparu i gorff monitro unrhyw wybodaeth y mae'r corff monitro yn gofyn yn rhesymol amdani at ddiben cyflawni ei swyddogaethau.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae i "cyfnod adnewyddu" yr ystyr a roddir i "renewal period" gan baragraff 32(1) o Atodlen AA1.

*Enw*
Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad